

Y Sioe

ADDYSG

Genedlaethol

HYDREF
7fed
2022

**Neuadd y
Ddinas**
Caerdydd

Yn ymgorffori'r **Sioe ADY**

Llyfryn Sioe

50%
I FFWRDD

Archebion grŵp o 10+
nes Mehefin 3ydd 2022

🐦
@SioeAddysg
#NESCYMRU2022

Gweithio Gyda:



Ydych chi eisiau **Ysbrydoli, Cefnogi a Datblygu eich Dysgwyr?**

Camau syml i wneud eich profiad yn y **Sioe Addysg Genedlaethol** yn **bleserus, addysgiadol a buddiol.**



CAM 1:

Rhannwch y llyfryn gyda'r holl staff perthnasol.



CAM 2:

Cyngori staff ar seminarau perthnasol - gan gysylltu hyn â'r CDY.



CAM 3:

Defnyddiwch y côd QR i archebu arlein neu ewch i dudalen 18 i lungopio'r ffurflen.



CAM 4:

Anfon yr holl ffurflenni seminarau drwy ebost neu postio.



CAM 5:

Argraffu eich tocynnau mynediad cyffredinol a'u cadw'n ddiogel at ddiwrnod y Sioe.



CAM 6:

Mae'r diwrnod wedi cyrraedd! Mwynhewch eich amser yn y SAG yng Nghaerdydd, Hydref 7fed 2022.



CAM 7:


Cynnal cyfarfod staff i rannu'r pwyntiau allweddol a datblygu gwybodaeth a syniadau newydd.



Roedd mynychu'r Sioe Addysg Genedlaethol yn rhoi cyfle i'n staff deilwra eu DPP yn unol â'u hanghenion personol eu hunain. Roedd yr amrywiaeth o seminarau y gallent eu dewis yn rhoi ysbrydoliaeth, mwynhad, syniadau arloesol ar gyfer addysgu a hwb gwirioneddol i'w lles. Roedd hefyd yn gyfle unigryw i amlygu ein holl staff i'r technegau a'r adnoddau diweddaraf a gyflwynwyd gan lawer o arddangoswyr i ysbrydoli eu brwdfrydedd dros ddatblygu arfer newydd. Fe aethon nhw â llawer o'r syniadau ac ysbrydoliaeth yn ôl i'r ysgol a'u galluogodd i ddatblygu eu haddysgeg a dechrau gweithredu syniadau arloesol ar gyfer y cwricwlwm newydd.

T Griffith

Pennaeth Cynorthwyol, Ysgol Uwchradd Cyfarthfa



Cofiwch roi y dyddiad yn eich dyddiadur!

Methu cyrraedd y sioe yng Nghaerdydd?

Peidiwch â phoeni, gallwch archebu eich tocyn mynediad **AM DDIM** i'r Sioe Addysg Genedlaethol yn Llandudno, Mehefin 16eg 2023.

I archebu eich tocyn ewch i www.sioeaddysggenedlaethol.com



Dyma ein hail flwyddyn o ddefnyddio diwrnod HMS i holl staff ysgol Palmerston yn y Sioe Addysg Genedlaethol. Roedd y diwrnod yn amhrisiadwy ac yn gyfle gwych i DPP fy staff. Dewisodd yr holl staff weithdai sy'n cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau cyfredol yr ysgol, yn ogystal â dewis gweithdai ychwanegol a oedd yn caniatáu iddynt ddilyn meysydd a oedd o diddordeb personol iddynt. Roedd adborth pawb yn hynod gadarnhaol, gyda'r staff bellach yn gweithredu'r dysgu o ganlyniad i wybodaeth a syniadau a gawsant gan y siaradwyr ysbrydoledig a glywsant ar y diwrnod. Byddwn yn bendant yn mynychu eto flwyddyn nesaf. Diolch!

K Edwards

Pennaeth, Ysgol Gynradd Palmerston



Edrychwch beth ddigwyddodd yn ein Sioe diwethaf yng Nghaerdydd...



Am

SAG 2022

Croeso

“

Croeso i chi i'r Sioe Addysg Genedlaethol yn fyw yng Nghaerdydd

Mae hi'n braf bod yn ôl yn Nghaerdydd i gynnal ein pumed Sioe Addysg fwyaf yng Nghymru. Dyluniwyd y sioe eleni i ddarparu hyd yn oed mwy o seminarau, gwasanaethau a chynhyrchion.

Bwriad ein sioe ym mis Hydref yw dathlu addysg ac addysgu trwy ddod â miloedd o weithwyr addysgiadol ynghyd i rwydweithio, profi ein harddangosfa a'n seminarau cyffrous. Mae'r sioe yn llawn syniadau blaengar a seminarau diddorol achrededig DPP sy'n llawn strategaethau a syniadau ymarferol i ysbrydoli a grymuso staff, plant a phobl ifanc. Yn ogystal, mae gennym hefyd sawl seminar ar gael yn Gymraeg.

Ni allwn aros i rannu'r diwrnod gwych hwn gyda chi i gyd.



Nicola S Morgan
Cyfarwyddwr



Einir A Williams
Cyfarwyddwr

”

Dyddiad a Amser y Sioe

Dydd Gwener 7 Hydref, 2022 - 08.00 - 16.00

LLEOLIAD:

Neuadd y Ddinas Caerdydd, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3ND

BWYD:

Mae bwyd a diod ar gael ar y ddwy lawr yng nghaffi Neuadd y Ddinas.

WI-FI:

Mynediad at wi-fi am ddim drwy gydol y sioe. Gellir dod o hyd i hyn fel "Cardiff Free Wifi" ar eich dyfais.

TEITHIO & PARCIO:

Mae'r lleoliad rhyw bum munud o gerdded o'r Orsaf Heol Y Frenhines. Mae meysydd parcio NCP hefyd yn ddigon agos i gerdded

EISTEDDLE:

Mae manau eistedd yn y caffi ar ddwy lawr y neuadd.

YSTAFELL WEDDI:

Mae ystafell weddi hefyd ar gael i'w defnyddio ar y diwrnod. Oes ydych yn awyddus i'w ddefnyddio gofynnwch i aelod o staff eich cyfeirio chi yno.

FFOTOGRAFFIAETH:

NODWCH FOD Y DIGWYDDIAD CYHOEDDUS YMA YN CAEL EI RECORDIO AR GAMERA. Efallai y cewch eich recordio a gallwch ymddangos mewn cynhyrchiad neu hyrwyddiad y sioe.



Agored Cymru yw'r corff dyfarnu Cymreig, sy'n arwain addysg yng Nghymru, i Gymru. Rydym yn ymgysylltu ag ysgolion fel y gallant gael y cymwysterau a'r wasanaethau gorau, gan ddiwallu anghenion y Cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru a thu hwnt.

www.agored.cymru



Mae 'Education Technology' yn gylchgrawn misol am ddim i danysgrifio gyda'r newyddion 'edtech' diweddaraf a gwybodaeth am ddigwyddiadau o'r sector addysg gyfan. Yn cynnwys technoleg ac arloesedd, mae'n gylchgrawn dibynadwy TG mewn addysg.

www.edtechnology.co.uk



NSM Training & Consultancy

Rydym yn cynnig nifer helaeth o gyrsiau, canllawiau arbenigol, cyhoeddiadau, a chynhadleddau, yn ogystal ag adnoddau arloesol i frwdfrydi staff a grymuso ysgolion.

www.nsmc.co.uk



Sefydliad elusenol sy'n cefnogi miloedd o ymarferwyr i darparu gwybodaeth berthnasol, hyfforddiant ac adnoddau, i alluogi staff i gyrraedd anghenion eu disgyblion.

www.nasen.org.uk



PRIFYSGOL BANGOR
UNIVERSITY

Mae gan yr Ysgol enw da ym maes hyfforddi athrawon, datblygiad proffesiynol ac arweinyddiaeth. Mae hyn yn galluogi graddedigion o'n rhaglenni i ddiwallu anghenion ysgolion a chyrrff eraill cysylltiedig ag addysg gan ysbrydoli ac arwain newid ledled Prydain a thu hwnt.

www.bangor.ac.uk



NAHT yw'r undeb a chymdeithas broffesiynol ar gyfer uwch arweinwyr ym maes addysg. Rydym yn arwain i ddatrys a rhoi cefnogaeth gwerth i helpu i gefnogi a gwarchod eich rôl. Ymunwch heddiw.

www.naht.org.uk



Mae'r Cyngor Llyfrau yn elusen genedlaethol sy'n cefnogi'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru. Elfen bwysig o'n gwaith yw hybu llythrennedd a darllen er pleser. Rydym yn gwneud hyn nid yn unig drwy sicrhau llif cyson o gyhoeddiadau ond hefyd drwy drefnu gweithgareddau arbennig sy'n dathlu darllen er pleser mewn ffordd cyffrous a chyraeddadwy.

www.llyfrau.cymru

Contents

AM SAG	4
Amserlen Seminarau	7
Seminarau a Siaradwyr	8-17
Ffurfen Archebu	18



Soniwch wrth eraill!

Cofiwch ddefnyddio rhain ar gyfryngau cymdeithasol!

#NESCYMRU2022
@SioeAddysg

Sioe Addysg Genedlaethol,
27 Morfa Gaseg
Llanfrothen, LL48 6BH

01766 772 927

einir@sioeaddysggenedlaethol.com
www.sioeaddysggenedlaethol.com

@SioeAddysg

/SioeAddysg

@SioeAddysg



Mae Marc Ansawdd Agored Cymru, sef mesurydd rhagoriaeth ar gyfer digwyddiadau a rhaglenni dysgu, wedi cael ei ddyfarnu i'r Sioe Addysg Genedlaethol eleni.

Mae hwn yn cydnabod ac yn dathlu arferion rhagorol ym maes darparu dysgu yng Nghymru. Drwy fynd i'r sioe, byddwch yn ennill **5 awr DPP** am eich cyfranogiad.

Mae Marc Ansawdd Agored Cymru yn gwerthuso digwyddiadau a rhaglenni dysgu yn erbyn safonau proffesiynol ac mae'n seiliedig ar arferion da ac ymchwil cyfredol ym maes addysg a hyfforddiant.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â marc.ansawdd@agored.cymru

This year's National Education Show has been awarded the Agored Cymru Quality Mark, a measure of excellence for learning programmes and events.

This recognises and celebrates outstanding practice for delivering learning in Wales. By attending the show you will gain **5 CPD hours** for you participation.

The Agored Cymru Quality Mark evaluates learning programmes and events against professional standards and is underpinned by good practice and current research in education and training.

To find out more, contact quality.mark@agored.cymru

Amserlen Seminarau

Pob seminar wedi'i achredu gan



9:00 - 9:50

10:30 - 11:20

12:00 - 12:50

13:30 - 14:20

15:00 - 15:50

Ystafell IG	Pwysigrwydd Datblygu Sgiliau Motor cyn ysgrifennu Cathy Parvin	Beth sy'n gwneud stori synhwyrdd dda a pham y dylwn i ei defnyddio? Jo Grace	Pam y dylai pob aelod o'r staff dysgu wybod am Dyspraxia Cathy Parvin	Beth sydd mewn label? Niwroamrywiaeth Karen Ferguson	Creu Llonyddwch Dave Read
Ystafell IG	Cadw cofnod o'ch pryderon ynghylch plentyn Jon Trew	Hyder yn ôl y galw Jackson Ogunyemi	Y 'Digital Pencil Case': pŵer technoleg i wella dysgu ar draws y cwricwlwm. Amelia Archer	5 Egwyddor i newid diwylliant ac ymddygiad Ollie Frith	Strategaethau ar gyfer gwella cyrhaeddiad a chynnydd. John Medicott
Ystafell IG	Pam y dylwn i boeni ("BORTHEREDNESS") - profiad cyfoethog y gallwch ymgolli ynddo Hywel Roberts	Diwygio ADY yng Nghymru - diwallu anghenion ein plant a'n pobl ifanc Nina Jackson	Gwneud AAA/ADY yn gyfrifoldeb i bawb Sam Garner	Cŵn mewn Ysgolion: Sut i ddatblygu ymyriad effeithiol sy'n golygu llesiant i bawb. Dr Helen Lewis	Adeiladu Hunan-hyder, Hunanbarch & Gwytwnch Martin Staniforth
Ystafell IG	Y Gelfyddyd o Ddisgleirio Will Hussey	Materion Teuluol Sut i gynhyrchu rhaglenni pwrpasol sy'n hyrwyddo cyswllt ymrwymiad teuluol i wella deilliannau pobl ifanc Kelly Hannaghan	Siarad Cadarn Steve Burnage	Gofal-u i ddysgu Kate Margaron	Anghofwch yr Ysgol Martin Illingworth & Rhythmical Mike
Ystafell IG	Ydy'r Cyfryngau Cymdeithasol a Rhaglenni Cyfrifiadurol wir yn elyn? Sam Garner	Saib > Ail-osod > Chwarae Ail-ddychmygu addysg. Mae trawsffurfio radical byd-eang yn bosibl mewn addysg, ac mae'n dechrau gyda'r gred fod gan bawb y potensial i ddysgu Ger Graus	Cefnogi Lles Ysgol Gyfan drwy Ymchwil i Weithrediadau Staff Frederika Roberts	Llwyddiant hefo Strategaethau a Chefnogaeth Synhwyrdd. Kim Griffin	Dyslecsia a Fi-Llwyddiannau mewn addysg Karen Ferguson
Ystafell IG	Mae Pobl yn Bwysig Steve Burnage	Therapi Cerdd a Chyfathrebu Joy Dando	Dysgu eich disgyblion i fod yn Wyddonwyr Gwych drwy ddefnyddio Sbwriel. Neil Atkin	Carwch eich ysgol Julie Rees	Cyd-weithio mewn clwstrwr er mwyn cynnal cysondeb o fewn y cwricwlwm Lucy Crehan
Ystafell IG	Cywiro gwaith ysgrifennu hefo canlyniadau go iawn Amelia Archer	Sut mae Drama'n helpu plant i feddwl Hywel Roberts	Y Cwricwlwm sy'n gyfoethog mewn doethineb Will Ord	Beth mae cyfarfod â llawer o benaethiaid rhagorol wedi ei ddysgu i mi am greu ysgol wir ragorol Sonia Gill	Annog plant i siarad I godi hunan-hyder Julie Clouter
Ystafell IG	"Mae gennym ddwy glust ac un geg." Gwrando ar lais y disgybl Mike Mainwaring	Ydy o'n werth ymdrechu hefo 'astudio gwers'? Hazel Jane Wordsworth	Effaith llymder ar ddisgyblion: Lleihau'r bwllch anfantais Kate Thomas & Gill German	Datrysiadau hyblyg mewn dysgu - cynnal dilyniant yn y dysgu Andrew Tidswell	
Ystafell IG	Ysbrydoli Gwyddonwyr y dyfodol o'r Cyfnod Sylfaen i fyny! Awen	Cyflwyniad i ddefnyddio'r llyfr Hanes yn y Tir ar lawr y dosbarth? Myrddin ap Dafydd	Dechrau Da i Ddarllen. Casia William	Paratoi am y Cwricwlwm Newydd Bethan Webb	
Tu Allan		Chwarae a dysgu allan Meriel Jones			

Pob seminar wedi'i achredu gan



Seminarau a Siaradwyr

9.00-9.50

Pwysigrwydd Datblygu Sgiliau Motor cyn ysgrifennu



Sesiwn ffurfiannol a rhyngweithiol wedi'i hanelu at adnabod a deall sgiliau motor cyn- ysgrifennu, a'r cyfnodau hynny sy'n angenrheidiol i baratoi plant ar gyfer dysgu llawysgrifen ac atal problemau'n ddiweddarach.



Cyflwynir gan:

Cathy Parvin
Cyfarwyddwr Elusen Addysg Dyspractia

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **CY, Cyn, ADY**

9.00-9.50

Cadw cofnod o'ch pryderon ynghylch plentyn

Mae sicrhau fod yr holl staff yn cofnodi pryderon am les a diogelwch ynghylch plant a phobl ifanc yn effeithiol yn gallu gwneud y gwahaniaeth rhwng diogelwch plentyn, neu ei adael mewn perygl. Bydd Jon yn edrych i mewn i beth ddylech neu na ddylech ei wneud wrth gofnodi gydag ansawdd dda ac yn edrych ar y ffordd y gallwn sicrhau fod ein cofnodion wir yn adlewyrchu'r hyn sydd yn digwydd i blant dan ein gofal.



Cyflwynir gan:

Jon Trew
Ymgynghorydd Diogelwch Plant

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

9.00-9.50

Pam y dylwn i boeni - profiad cyfoethog y gallwch ymgolli ynddo

Yn ystod y sesiwn bydd yr athro ar daith [Travelling Teacher] a'r 'arweinydd byd mewn brwdfrydedd' yn rhannu ei brofiadau a'i syniadau ar sut i gefnogi ysgolion yng Nghymru ar eu taith drwy'r cwricwlwm yn seiliedig ar esiamplau ymarferol mewn dosbarth hefo disgyblion ac athrawon ar draws y sbectrwm ysgol. Bydd sesiynau Hywel yn llawn gwybodaeth cofiadwy a hwyliog.



Cyflwynir gan:

Hywel Roberts
Hyfforddwr ac Awdur

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

9.00-9.50

Y gelfyddyd o ddisgleirio

Mae'r sesiwn wedi'i bwriadu i herio arferion a ffyrdd cyfredol o feddwl, i ail-danio eich brwdfrydedd a'ch cyffroi ynglŷn â'r sialensau sydd yn eich wynebu. Mae'r cynnwys yn seiliedig ar yr ymchwil diweddaraf i seicoleg positif, lles, lledaeniad emosiynol a llwyddiant. Yn sicr dydy o ddim am wneud mwy, ond efallai am 'fod' yn fwy fel... chi eich hun.



Cyflwynir gan:

Will Hussey
Awdur, Llefarydd a Chyflwynydd. Pennaeth Ysgolion Gwych

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **CY, Cyn, Uwch**

9.00-9.50

Ydy'r Cyfryngau Cymdeithasol a Rhaglenni Cyfrifiadurol wir yn elyn?

Bydd y seminar yma'n edrych ar beth mae ymchwil yn ei ddweud wrthym, a sut y gallwn warchod myfyrwyr a ni'n hunain o effeithiau negyddol y cyfryngau cymdeithasol a gemau cyfrifiadurol. Bydd yn trafod y materion go iawn a drafodir gan staff addysgol am y cyfryngau cymdeithasol a sut i weithio mewn partneriaeth â rhieni.



Cyflwynir gan:

Sam Garner
Hyfforddwr ac Awdur

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

9.00-9.50

Mae pobl yn bwysig

Bydd y seminar yn darparu cyfranogwyr gyda technegau ac arfau i ddatblygu ethos positif tuag at gyfrifoldebau a heriau sy'n gosod y disgwyliadau uchaf drwy roi pobl yn gyntaf gyda cefnogaeth positif ac ysgogiad.



Cyflwynir gan:

Stephen C Burnage
Ymgynghorydd hyfforddiant addysg rhyngwladol, arolygydd ac awdur

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

Pob seminar wedi'i achredu gan



Seminarau a Siaradwyr

9.00-9.50

Cywiros gwaith ysgrifennu hefo canlyniadau go iawn

Bydd y seminar yn rhannu sut y gall technoleg gynnig prosesau i fynd i'r afael â sgiliau llythrennedd: o danio'r awydd i ysgrifennu'n greadigol a medrus, i weithgareddau sy'n gwneud y broses o wella lefelau'r gwaith yn hwyliog, atyniadol ac effeithiol.



Cyflwynir gan:

Amelia Archer
Cyfarwyddwr Cwricwlwm Rhyngwladol
Sefydliad JDO

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **Uwch**

9.00-9.50

"Mae gennym ddwy glust ac un geg." Gwrando ar lais y disgybl

Seminar rhyngweithiol ar Hawliau'r Plentyn, Hawliau Parchu Ysgolion [Right Respecting Schools] a gwrando ar ddisgyblion. Bydd yn ymdrin â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn; Modelau Cyfranogiad plant a phobl ifanc: ffyrdd arbennig o wrando ar blant fel y dull 'Mosaic'; gwneud y mwyaf o Amser Cylch a'r Cyngor Ysgol a defnydd effeithiol o'ch Disgyblion Lywodraethwyr.



Cyflwynir gan:


Mike Mainwaring
Swyddog Hyfforddi Plant yng Nghymru

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

9.00-9.50

Ysbrydoli Gwyddonwyr y dyfodol o'r Cyfnod Sylfaen i fyny!

O dan arweiniad Awen Ashworth fe gewch gyfle i ddysgu am Wyddoniaeth ar draws y Cwricwlwm, o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2, a sut mae modd cydweithio fel ysgol cyfan. Bydd hwn yn sesiwn ymarferol ble byddwch yn cael cyfle i roi cynnig ar wneud arbrofion Gwyddonol syml y gellir eu gwneud eto yn eich lleoliad. Bydd y gweithdy yn rhoi mewnlwg i ddulliau newydd o gyflwyno Gwyddoniaeth gan ddefnyddio offer syml a'i wneud yn hwyliog yn yr un modd. Gyda Chwricwlwm i Gymru bellach yn weithredol, a Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn un o'r chwe maes dysgu a phrofiad, dyma gyfle gwych i chi dderbyn gwybodaeth am dechnegau, syniadau, arbrofion a gweithgareddau hwyliog i'w gwneud gyda'ch disgyblion sy'n berthnasol i bob oed a gallu.



Cyflwynir gan:

Awen Haf Ashworth
Athrawes, Gwyddonydd a Chyfarwyddwr
Cwmni Sbarduno

Iaith: **Cymraeg** | Cynulleidfa: **Cyn**

10.30 - 11.20

Beth sy'n gwneud stori synhwyraidd dda a pham y dylwn i ei defnyddio?

Seminar
ADY

Bydd y sesiwn yn archwilio nifer o agweddau cyfrannol o dechnoleg i gydraddoldeb a chyfiawnder; addysg yn erbyn ysgol; "mwy nag ysgol"; ac ydy pob plentyn yn gyfrioldeb i bawb. Y nod: darganfod rhai atebion. Ydy o'n hawdd? Nac ydy. Ydy o'i werth o? Yn bendant!



Cyflwynir gan:

Jo Grace
Awdur

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10.30 - 11.20

Hyder yn ôl y galw

O'r sesiwn hon byddwch yn dod i ddeall y rhwystrau sydd i hunan-werth, sut i ddelio hefo'r Beirniad Mewnol, peidio â poeni am farn pobl eraill, a sut i stopio amau chi eich hun. Cewch ddysgu sut i rannu eich awch i weithio mewn ffordd ddilys a datblygu sgiliau i adeiladu hapusrwydd a hunan-hyder.



Cyflwynir gan:

Jackson Ogunyemi
Cyfarwyddwr FIXUP

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10.30 - 11.20

Diwygio ADY yng Nghymru - diwallu anghenion ein plant a'n pobl ifanc

Seminar
ADY

Bydd Nina'n rhannu'r materion allweddol i gyfeirio a gweithredu y diwygio ar ADY yng Nghymru yn eich lleoliad addysgol. Drwy adeiladu rhwydwaith gefnogi ADY yn y Sioe Addysg Genedlaethol ni fydd r'un athro, plentyn na rhiant yn teimlo'n ansic nac yn cael eu gadael ar ôl ynghylch dyfodol y ddarpariaeth ar gyfer ADY.



Cyflwynir gan:

Nina Jackson
Hyfforddwr ac Awdur

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

Pob seminar wedi'i achredu gan

Seminarau a Siaradwyr



10.30 - 11.20

Materion Teuluol

Bydd y sesiwn yma'n rhoi cyfle i archwilio pam fod ymrwymiad teuluol mor bwysig, a beth yw'r heriau cyfredol. Cynigir strategaethau parod i ddatblygu dulliau cyfeillgar i ddelio â rhieni ac adeiladu cyswllt positif rhwng ysgol a chartref drwy grwpiau grymuso teuluoedd o fewn eich cymuned ysgol, yn ogystal ag elwa o syniadau i fynd â llais y rhieni drwy arolygon.



Cyflwynir gan:

Kelly Hannaghan
Ymgynghorydd Iechyd Meddwl a Lles, Mind
Work Matters Ltd

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10.30 - 11.20

Saib > Ail-osod > Chwarae Ail-ddychmygu addysg

NO CONTENT



Cyflwynir gan:

Professor Dr Ger Graus OBE
Athro Gwadd yn y Brifysgol Ymchwil
Genedlaethol, Mosco

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10.30 - 11.20

Therapi Cerdd a Chyfathrebu

Bydd y seminar yn edrych ar wahanol ffyrdd o weithio hefo disgyblion sydd yn ddi-iaith yn cynnwys y rhai ag awtistiaeth, mudandod dewisol, yn hollol fyddar neu ag unrhyw anhawster cyfathrebu arall.



Cyflwynir gan:

Joy Dando
Therapydd Cerdd

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **CY, Cyn**

10.30 - 11.20

Sut mae Drama'n helpu plant i feddwl

Yn y gweithdy ymarferol hwn bydd Hywel yn arddangos sut mae defnyddio technegau syml Drama yn gallu dyfnhau meddwl plant, gwreiddio gwybodaeth a dangos y byd iddyn' nhw.



Cyflwynir gan:

Hywel Roberts
Hyfforddwr ac Awdur

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10.30 - 11.20

Ydy o'n werth ymdrechu hefo 'astudio gwers'?

Byddwn yn rhannu darganfyddiadau'r ymchwil yn y sesiwn hon, gan drafod y sialensau a'r cyfeleon a wynebwyd, a'r effaith a gafodd y gwaith hwn ar y dysgwyr yn y dosbarth a'r addysgwyr oedd yn ymwneud â'r ymchwil.



Cyflwynir gan:

Hazel Jane Wordsworth
Cyfarwyddwr Addysg Gychwynnol Athrawon
Partneriaeth CaBan Prifysgol Bangor

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

10.30 - 11.20

Cyflwyniad i ddefnyddio'r llyfr Hanes yn y Tir ar lawr y dosbarth?

Mae llawer o alwadau wedi bod dros y blynydoedd diwethaf am gyflwyno Hanes Cymru yn llawnach ac yn fwy diddorol i holl blant Cymru. Dyna union fwrriad Dr Elin Jones wrth iddi fynd ati i gyflawni uchelgais oes a chreu dwy gyfrol: Hanes yn y Tir a History Grounded. O'r diwedd, mae'r plant yn y ddwy iaith yn cael y profiad o weld stori 5,000 o flynyddoedd yn dod yn fyw ac yn glir iddyn' nhw o ganrif i ganrif. Canolbwyntio ar leoliadau mae'r awdur wrth fynd â ni ar daith drwy amser a thrwy bob rhan o Gymru.



Cyflwynir gan:

Myrddin ap Dafydd
Carreg Gwalch

Iaith: **Cymraeg** | Cynulleidfa: **Pawb**

Pob seminar wedi'i achredu gan



Seminarau a Siaradwyr

10.30 - 11.20

Chwarae a dysgu allan

Dyma sesiwn ymarferol a fydd yn darparu syniadau gwych a gweithgareddau hwyliog i'w defnyddio hefo dosbarth neu grŵp. Byddwn yn treulio'r sesiwn tu allan ym mharc Bute, gan archwilio ardal werdd y ddinas. Dewch â dillad awyr agored i'w gwisgo ac esgidiau glaw/cerdded pwrpasol.



Cyflwynir gan:

Meriel Jones
Swyddog Parc Biwt

laith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **CY, Cyn**

12.00 - 12.50

Pam y dylai pob aelod o'r staff dysgu wybod am Dyspracsia

Seminar
ADY

Mae'r sesiwn ymarferol hon yn llawn o awgrymiadau syml y gallwch eu defnyddio yn y dosbarth fydd yn helpu athrawon dosbarth prysur i gefnogi'r plant yma.



Cyflwynir gan:

Cathy Parvin
Cyfarwyddwr Elusen Addysg Dyspracsia

laith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12.00 - 12.50

Y 'Digital Pencil Case': pŵer technoleg i wella dysgu ar draws y cwricwlwm.

O Saesneg i Wyddoniaeth, o Gelf i ABACh, bydd y cyflwyniad hwn yn rhoi gwersi ymarferol i fynd ag addysgwyr drwy apps, gwefannau a phrosiectau all gael eu defnyddio'n hawdd i wella'r ffordd y mae disgyblion yn dysgu.



Cyflwynir gan:

Amelia Archer
Cyfarwyddwr Cwricwlwm Rhyngwladol
Sefydliad JDO

laith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **Uwch**

12.00 - 12.50

Gwneud AAA/ADY yn gyfrifoldeb i bawb

Seminar
ADY

Bydd y seminar yma'n dangos pam fod gweithio'n strategol at ysgol gyfan gynhwysol yn llesol i bob disgybl a sut y gellir ei gyflawni. Darperir arweiniad a chynngor ymarferol ynghyd â thrafod sut i gynnwys yr holl staff, hyd yn oed y rhai sydd â'u meddylfryd wedi'i hen sefydlu!



Cyflwynir gan:

Sam Garner
Hyfforddwr ac Awdur

laith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **ADY**

12.00 - 12.50

Siarad Cadarn

Bydd y seminar yn darparu strategaethau defnyddiol ac ymarferiadau wedi eu paratoi'n ofalus fydd yn galluogi'r cyfranogwyr i fynd i'r afael â sgyrsiau anodd a heriol hefo hyder, ffocws a chydymdeimlad.



Cyflwynir gan:

Stephen C Burnage
Ymgynghorydd hyfforddiant addysg
rhyngwladol, arolygydd ac awdur

laith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12.00 - 12.50

Cefnogi Lles Ysgol Gyfan drwy Ymchwil i Weithrediadau Staff

Yn y seminar hon drwy ddefnyddio enghreifftiau o ysgolion eraill byddwch yn dysgu sut y gallwch redeg prosiectau ymchwilio a gweithredu [Action Research Projects] yn eich ysgol, p'run ai os ydych yn aelod o staff neu'n arweinydd ysgol.



Cyflwynir gan:

Frederika Roberts
Hyfforddwr Arweiniol ar gyfer 'Educate to Flourish CIC'

laith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

Canrifoedd Cymru o'n Cwmpas Heddiw

Mae pwyslais y gyfrol ar fynd allan i chwilio am ein hanes yn y tir.

Sesiwn fyw gyda

Myrddin ap Dafydd

yn adrodd hanes y dasg o greu
llyfr hanes ac yn crynhoi beth
yw pwysigrwydd ei ddefnyddio
ar lawr y dosbarth.

(Gwybodaeth lawn
ar ein safwe)

Gweithio Gyda:
Gwasg Carreg Gwalch



Archebwch eich
tocynnau i'r Sioe
ar ein safwe!



www.sioeaddysggenedlaethol.com



einir@sioeaddysggenedlaethol.com



01766 772 927

Dechrau da i ddarllen






Gweithdy gan Atebol a Casia Wiliam sy'n cynnwys gwledd o syniadau amrywiol ar gyfer ysbyrdoli plant wrth ddysgu darllen.



- Cyfle i fanteisio ar y deunydd darllen amrywiol sydd ar gael ar gyfer denu darllenwyr ifanc neu ddihyder.
- Cyfle i ddarganfod mwy am gyfresi poblogaidd megis, Sali Mali, Magi Ann, Cae Berllan a llawer mwy.
- Llwyth o syniadau ar gyfer datblygu strategaethau darllen cynnar.



Archebwch eich
tocynnau i'r Sioe
ar ein safwe

 www.sioeaddysggenedlaethol.com
 einir@sioeaddysggenedlaethol.com
 01766 772 927



Gweithio gyda



Pob seminar wedi'i achredu gan



Seminarau a Siaradwyr

12.00 - 12.50

Dysgu eich disgyblion i fod yn Wyddonwyr Gwych drwy ddefnyddio Sbwriel.

Mae 'Rubbish Science' yn anelu at gryfhau llythrennedd gwyddonol tra'n datrys problemau real gan ddefnyddio sbwriel yn unig fel adnodd. Yn y sesiwn hon byddwch yn dysgu sut y gall eich disgyblion wneud trapiau ar gyfer pryfed, tectynnau bwydo adar, a thyfu planhigion mewn poteli plastig mewn dull hydroponogol. Byddwn yn creu chwilfrydedd drwy fod yn bryfoclyd, datblygu strategaethau datrys problemau a chael llawer o hwyl wrth ddysgu.



Cyflwynir gan:

Neil Atkin
Hyfforddwr

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **Pawb, Athro Gwyddoniaeth**

12.00 - 12.50

Y Cwricwlwm sy'n gyfoethog mewn doethineb

Mae'r seminar hon yn dadlau ei bod yn ddiffygiol mewn elfennau o addysg cwbl defnyddiol a chyfoethog. Bydd Will Ord yn awgrymu ffyrdd ymarferol i gefnogi arweinyddion ac athrawon ysgol i gyfnwio cwricwlwm sy'n gyfoethog mewn gwybodaeth am gwricwlwm sy'n gyfoethog mewn doethineb.



Cyflwynir gan:


Will Ord
Hyfforddwr

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12.00 - 12.50

Effaith llymder ar ddisgyblion: Lleihau'r bwloch anfantais

Bydd y sesiwn hon yn eich tywys drwy ganllawiau a rhesymeg allweddol yr ymchwil yn ogystal â dangos sut y defnyddir y canllawiau fel erfyn ysgol gyfan. Ceir gwybodaeth am adnoddau am ddim, syniadau ar sut i weithredu y canllawiau gan rannu esiamplau o'r arferion gorau.



Cyflwynir gan:

Kate Thomas & Gill German
Swyddogion Datblygu Plant yng Nghymru

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

12.00 - 12.50

Dechrau Da i Ddarllen

Gweithdy gan Atebol a Casia William, sy'n cynnwys gwledd o syniadau amrywiol ar gyfer ysbrydoli plant wrth ddysgu darllen.



Cyflwynir gan:

Casia William
Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran y Gymraeg

Iaith: **Cymraeg** | Cynulleidfa: **Pawb**

13.30 - 14.20

Beth sydd mewn label? Niwroamrywiaeth

Bydd y sesiwn yn esbonio beth mae'r term niwroamrywiaeth yn ei olygu, a'r sialensau a'r cryfderau y bydd pobl ifanc yn arddangos, ynghyd â strategaethau a thechnegau ar gyfer gwella ansawdd addysgu positif.

Seminar
ADY

Cyflwynir gan:


Karen Ferguson
Hyfforddwr, NSM Training & Consultancy

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **ADY**

13.30 - 14.20

5 Egwyddor i newid diwylliant ac ymddygiad

Bydd Ollie yn dangos sut i gychwyn, cynnal a gwreiddio newidiadau sylweddol mewn polisi ac ymarferion i drawsnewid ymddygiad disgyblion. Bydd yn dangos pŵer newidiadau cytunedig mewn ymddygiad oedolion, ac yn eich herio i edrych ar y diwylliant ymddygiad yn eich ysgol wrth i chi gychwyn ar eich taith i hyrwyddo'r pum egwyddor o'r arfer 'CPI'.



Cyflwynir gan:

Ollie Firth
Hyfforddwr Ymddygiad Preifat CPI

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

Pob seminar wedi'i achredu gan



Seminarau a Siaradwyr

13.30 - 14.20

Cŵn mewn Ysgolion: Sut i ddatblygu ymyriad effeithiol sy'n golygu llesiant i bawb.

Bydd y sesiwn yn amlygu ystyriaethau ymarferol sydd angen eu hystyried fel y gall cŵn yn ogystal â plant fwynhau'r profiadau, gan greu partneriaeth positif i bawb. Byddwn yn trafod strategaethau i hyrwyddo partneriaeth saff, hapus, a dymunol rhwng plant, cŵn ac oedolion.



Cyflwynir gan:

Dr Helen Lewis
Cyfarwyddwr Rhaglen, TAR, Prifysgol Abertawe

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

13.30 - 14.20

Gofal-u i ddysgu

Bydd y seminar yn eich cyflwyno i effaith cyswllt a pherthynas mewn addysg, a'r defnydd o ymyrraethau cyffredinol mewn ysgol i hybu lles yr athro a'r plentyn, i edrych ar gyrhaeddiad a lleihau pryderon ymddygiad.



Cyflwynir gan:

Dr Kate Margaron
Hyfforddwr

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

13.30 - 14.20

Llwyddiant hefo Strategaethau a Chefnogaeth Synhwraidd

Bydd y sgwrs yma'n cynnig cyngor i'ch helpu i fod yn fwy llwyddiannus pan yn defnyddio strategaethau synhwraidd hefo'ch disgyblion.

Seminar
ADY

Cyflwynir gan:

Kim Griffin
Cyfarwyddwr, GriffinOT

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **ADY**

13.30 - 14.20

Carwch eich ysgol

Yn y seminar hon bydd Julie yn siarad am greu'r amgylchedd dysgu a'r ethos gorau posib' yn eich Ysgol Gynradd. Yn dilyn yr egwyddorion yn seiliedig ar werthoedd, gallwch archwilio eich amgylchedd, ac edrych ar yr effaith y mae hyn yn ei gael ar eich perthynas â chi eich hun ac eraill, yr amgylchedd ffisegol, diwylliant ac ethos.



Cyflwynir gan:

Julie Rees
Pennaeth, Hyfforddwr Achrededig CTI, RLE ac ymgynghorydd PCA

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **Cyn**

13.30 - 14.20

Beth mae cyfarfod â llawer o benaethiaid rhagorol wedi ei ddysgu i mi am greu ysgol wir ragorol

Bydd Sonia'n rhannu yr hyn mae hi wedi'i weld dros y degawd ddiwethaf:

- Beth mae ysgolion 'rhagorol' yn ei wneud yn wahanol
- Y camgymeriadau sydd yn ein cadw ar 'da'
- Y penaeithiaid y mae hi wedi'u cyfarfod (fel y gallwch chi eu cyfarfod hefyd)



Cyflwynir gan:

Sonia Gill
Prif Swyddog Gweithredol, Heads Up Limited

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

13.30 - 14.20

Datrysiadau hyblyg mewn dysgu - cynnal dilyniant yn y dysgu

Sesiwn fydd yn edrych ar sut mae addysgwyr yn ymgorffori adnoddau digidol yn llwyddiannus i'r dysgu i hyrwyddo cyrhaeddiad disgyblion, yn ogystal â sut y gall rhieni a disgyblion ddefnyddio'r adnoddau yma gartref i ddarparu gwell dealltwriaeth o'r hyn a addysgir yn y dosbarth, ac i edrych yn ddyfnach ar agweddau o ddiddordeb arbennig i bob disgybl yn unigol.



Cyflwynir gan:

Andrew Tidswell
Cyfarwyddwr Datblygiad Proffesiynol

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

Pob seminar wedi'i achredu gan



Seminarau a Siaradwyr

13.30 - 14.20

Paratoi am y Cwricwlwm Newydd

Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr Is-Adran y Gymraeg Llywodraeth Cymru, fydd yn cyflwyno diweddariad ar baratodau Llywodraeth Cymru tuag at cyflwyno'r cwricwlwm newydd, a'r heriau a'r cyfleoedd o safbwynt y Gymraeg.



Cyflwynir gan:

Bethan Webb
Dirprwy Gyfarwyddwr Is-Adran y Gymraeg,
Llywodraeth Cymru

Iaith: **Cymraeg** | Cynulleidfa: **Pawb**

15.00 - 15.50

Creu Llonyddwch

Bydd Creu Llonyddwch yn eich galluogi i saernio set ddefnyddiol o fewnbynnau emosiynol, meddyliol, a chorfforol positif fydd yn sail i bob agwedd o'ch datblygiad personol a phroffesiynol.



Cyflwynir gan:

Dave Read
Hyfforddwr

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **Cyn**

15.00 - 15.50

Strategaethau ar gyfer gwella cyrhaeddiad a chynnydd.

Seminar wedi'i chynllunio ar gyfer arweinyddion ysgol ac athrawon dosbarth i edrych ar eu harferion cyfredol a datblygu strategaethau newydd i fesur cynnydd a chymhell disgyblion tuag at lefelau uwch o gynnydd a chyflawniad.



Cyflwynir gan:

John Medicott
Hyfforddwr

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

15.00 - 15.50

Adeiladu Hunan-hyder, Hunanbarch & Gwytnwch

Bydd y sesiwn yma'n rhoi cyflwyniad i'r adnodd Cynradd newydd 'Amazing Me' o'r 'Dove Self-Esteem Project' a 'Confident Me' [adnodd Uwchradd] Darperir USB am ddim hefo'r adnoddau.



Cyflwynir gan:


Martin Staniforth
Dove Self-Esteem Project Catalyst

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

15.00 - 15.50

Anghofiwrch yr Ysgol

Gyda dogn o hiwmor a synnwyrr cyffredin mae seren y gair llafar 'Rhythmical Mike' ac awdur 'Forget School' Martin Illingworth yn darparu mewnwelediad a ffyrdd y gall ysgolion fod yn fwy buddiol mewn cefnogi pobl ifanc fel y maent yn wynebu'r newid byd cyflwm sy'n digwydd yn yr unfed ganrif ar hugain. Rydym i gyd angen ail-edrych ar ein cwricwlwm oherwydd mae'r ifanc eisioes wedi penderfynu symud ymlaen.



Cyflwynir gan:


Martin Illingworth & Rhythmical Mike
Darlithydd

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

15.00 - 15.50

Dyslecsia a Fi- Llwyddiannau mewn addysg

Bydd y sesiwn hon yn datblygu dealltwriaeth o Ddyslecsia a'r sialensau a wynebir mewn addysg. Trafodir ffyrdd o ymdrin ac addasiadau i hyrwyddo ymrwymiad positif i bawb.



Cyflwynir gan:

Karen Ferguson
Hyfforddwr, NSM Training & Consultancy

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **ADY**Seminar
ADY

Pob seminar wedi'i achredu gan



Seminarau a Siaradwyr

15.00 - 15.50

Cyd-weithio mewn clwstwr er mwyn cynnal cysondeb o fewn y cwrwclwm

Yn y sesiwn hon bydd Lucy yn canolbwyntio ar lwyddiannau a methiannau o weithredu'r curricula mewn gwledydd eraill, gan annog dealltwriaeth ar sut y gallwn gynllunio a sicrhau cysondeb y cwrwclwm ar lefel clwstwr yng Nghymru. Bydd Lucy'n rhoi esiamplau penodol o'r broses gynllunio ar gyfer y cwrwclwm a beilotwyd ganddi fel rhan o raglen traws-ranbarthol yng Nghymru, ac yn esbonio sut y gellid defnyddio'r cynllunio ar lefel clwstwr i greu cyd-bwysedd rhwng y ddwy nod bwysig o gysondeb a chyd-weithio datganoledig.



Cyflwynir gan:

Lucy Crehan
Ymgynghorydd Addysg

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **Pawb**

15.00 - 15.50

Annog plant i siarad i godi hunan-hyder

Gall y cyfle i siarad, rhannu a datblygu iaith ac archwilio sgiliau siarad fod yn gyfyngedig iawn i rai plant. Ar gyfer dysgwyr di-Gymraeg, efallai mai dim ond iaith y cartref sydd wedi'i siarad. I lawer o blant ag ADY, mae cyfleoedd i siarad, rhannu a datblygu cariad at yr iaith yn gyfyngedig.

Seminar
ADY

Cyflwynir gan:

Julia Clouter
Scanning Pens

Iaith: **Seasneg** | Cynulleidfa: **ADY**

Tocynnau Seminar

Os hoffech chi fynychu unrhyw un o'n seminarau gwych yn y Sioe Addysg Genedlaethol 2022 - gwnewch yn siŵr eich bod yn archebu heddiw.

Pris archebu'n gynnar:

£10
+TAW

Ar gael hyd at hanner nos
Mehefin 3ydd 2022

Pris cyn y sioe:

£15
+TAW

Ar gael hyd at hanner nos
Hydref 6fed 2022

Pris ar y diwrnod:

£20
+TAW

Ar gael ar y diwrnod
Hydref 7fed 2022

Cofrestrwch eich diddordeb ar
www.SioeAddysgGenedlaethol.com

Gellir archebu tocynnau hefyd o'r 'Ystafell gwerthu tocynnau seminarau' sydd i fyny'r grisiau yn ardal y neuadd farmor. **Nid oes peiriant cerdyn ar gael i brynu tocynnau ar y diwrnod.**

50%
I FFWRDD

Archebion grŵp o 10+
nes Mehefin 3ydd 2022

@SioeAddysg
#NECYMRU2022



Yn ymgorffori'r Sioe AAA/ADY = Seminar ADY

GWNEWCH GOPI I POB AELOD STAFF OS GWELWCH YN DDA.

Enw: _____ Ysgol/ sefydliad _____
 Cyfeiriad e-bost: _____ Teitl swydd: _____

(Sichreth fod eich cyfeiriad e-bost yn un unigol fel y gall Agored Cymru tystysgrif am ddyfarnu oriau DPP) Marcwch y tabl isod gyda'r seminarau yr hoffech eu mynychu.

9.00yb 9.50yb Cathy Parvin	Pwysigrwydd Datblygu Sgiliau Motor cyn ysgribennu	Jon Trew	Cadw cofnod o'ch gwledron yng nghylch plentyn	Hywel Roberts	Y gelfyddyd o ddisgleirio	Will Hussey	Ydy'r Cyfngat Cymdeithasol a Rhagweld Cyfrifiadurol wir yn eidd?	Sam Garner	Mae pobol yn bwysig	Cywiro gwaith ysgribennu hefo canlyniadau go iawn	"Mae gemyn ddwy glust ac un geg." Gwranddo ar lais y diglybi	Mike Mainwaring	Gwyddonieth ymarferol i sbarduno gwyddonwyr y dyfodol	Awen Ashworth		
10.30yb 11.20yb	Beth sy'n gwneud stori synhwyraidd dda a pham y dylwnt ei defnyddio?	Jackson Ogunyemi	Hyder yn ôl y galw	Nina Jackson	Materion Teuluo	Kelly Hammaghan	Saib All-ecods Chwarae All-ddeddfyrdd addyg.	Ger Gratus	Therapi Cerdâ a Chyfathrebu	Sut mae Drama'n helpu plant i feddwl	Hazel J Wordsworth	Hanes yn y Tir	Hanes yn y Tir	Myrddin ap Dafydd	Dygu a Chwarae tu Allan	Meriel Jones
12.00yh 12.50yh	Pam y dylai pob aelod o'r staff ddygu wybod am Dyspraxia	Amelia Archer	Cywiro gwaith ysgribennu hefo canlyniadau go iawn	Samantha Garner	Sland Cadam	Stephen Burnage	Cefnogi Lles Ysgol Gyfan drwy Ymchwili i Weithrediau Staff	Frederika Roberts	Dygu eich disgyblion i fod yn Wyddonwyr Gwych drwy ddefnyddio Sbwriel.	Y Cwricwlwm sy'n gyfoethog mewn doethineb	Will Ord	Effaith llynder ar ddisgyblion: Uehau'r buch arifantals	Kate Thomas & Gill German	Dechau Da i Ddarllen.	Bethan Mai Jones a Casia William	
13.30yh 14.20yh	Beth sydd mewn labol? Niwroa mynyddiaeth	Ollie Frith	5 Egwylador i newid diwylliant ac ymddygiad	Dr Helen Lewis	Gofalau i ddygu	Kate Margaron	Llywodiant hefo Strategaethau a Chwaraeath Synhwyraidd.	Kim Griffin	Carwch eich ysgol	Beth mae cyfarfod â llawer o bennaethiaid rhagorol wedi ei ddygu i mi am greu ysgol wir ragorol	Sonia Gill	Datysyadau hyblyg mewn dygu - cynnal dilyniant yn y dygu	Andrew Tidwell	Parato i am y Cwricwlwm Newydd	Bethan Webb	
15.00yh 15.50yh	Creu Llwyddwch	John Mellicott	Strategaethau ar gyfer gwella cyrhaeddiad a chymryd	Martin Stanforth	Angofhwyb yr Ysgol	Martin Illingworth & Rhythmic Mike	Dyslectia a Ff-Llywddiannau mewn addysg	Karen Ferguson	Cyw-ethio mewn chwstwr er mwyn cynnal cysondeb o fewn y cwricwlwm	Amgylchedd i siarad i godi Hunan-Hyder	Julie Clouter					

Pris yr un am seminar: £10.00 + TAW - Pris archebu'n fuan (cyn Mehefin 3ydd 2022) £15 + TAW pris arferol | £20.00 + TAW - Pris ar y diwrnod (Hydref 7fed 2022) | 50% i ffwrdd i grŵp 10+ (hyd nes Mehefin 3ydd)

Manylion Manyleb:

Enw Cyswilt: _____ Cyfeiriad E-bost: _____
 Rhif Cyswilt: _____ Cyfeiriad: _____
 Rhif Archeb: _____ Cód Post: _____

Oes gan unrhyw un o'ch staff / cynrychiolwyr unrhyw ofnyddion arbennig neu anghenion dygu ychwanegol y dylem fod yn ymwybodol ohonynt? Nodwch yms:

Drwy arwyddo'r furflen archebu, rwyf cyn cytuno i'r Termau ac Amodau ar ein safwe: <https://nationalteachersunionshow.com/terms-conditions/> Enw _____ Arwyddo _____ Dyddiad _____